

Deddf Adnoddau Dŵr 1991 (fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Dŵr 2003)

Hysbysir trwy hyn, yn unol ag Adran 37 Deddf Adnoddau Dŵr 1991 a Rheoliad 6 Rheoliadau Adnoddau Dŵr (Tynnu a Chronni Dŵr) 2006 i gais gael ei wneud i Cyfoeth Naturiol Cymru gan Dŵr Cymru Cyfyngedig i amrywio trwydded lawn i dynnu dŵr, rhif cyfres 24/66/3/0048, sy'n awdurdodi tynnu dŵr o Strata tanddaearol (Tywodfaen Permo-Triasig Clwyd) yng Nghyfeirnod Grid Cenedlaethol SJ 056 720, SJ 058 719 a SJ 057 720. Mae'r amrywiad yr ymgeisir amdano yn gynydd dros dro yn y cyfaint blyneddol, o 3,409,500 metr ciwbig y flwyddyn i 3,609,500 metr ciwbig y flwyddyn hyd at 31/03/2018.

Gellir gwneud cais am gopi digidol o'r cais a dogfennau ategol yn rhad ac am ddim drwy e-bost drwy gysylltu â permittingconsultations@naturalresourceswales.gov.uk

Os dymunwch wneud sylwadau ynghylch y cais, rhaid ichi wneud hynny yn ysgrifenedig, gan ddyfynnu enw'r ymgeisydd a'r Cyfeirnod PAN-002101 wrth Cyfoeth Naturiol Cymru, Gwasanaeth Trwyddedu, Tŷ Cambria, 29 Heol Casnewydd, Caerdydd, CF24 0TP neu drwy e-bost i permittingconsultations@naturalresourceswales.gov.uk erbyn 24 Ionawr 2018 fan bellaf.

Fel arfer rhaid inni roi unrhyw ymatebion yr ydym yn eu derbyn ar y gofrestr gyhoeddus. Dywedwch wrthym os nad ydych yn dymuno i'ch manylion fod ar gael i'r cyhoedd. Er mwyn cael rhagor o wybodaeth, gweler adran ymgynghoriadau ein gwefan <http://naturalresources.wales/?lang=enm> neu ffoniwch ein Canolfan Gofal Cwsmeriaid 0300 0653000 (Dydd Llun-Gwener, 9am-5pm).